Yr amserlen ar gyfer ystyried Mesur arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau)

Ar 19 Hydref 2009, cyflwynwyd Mesur arfaethedig y Comisiwn, 'Mesur arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau)', yn y Cynulliad.

Ar 13 Hydref 2009, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 23.21, i gyfeirio'r Mesur at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 er mwyn iddo ystyried a chyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig.

Yn unol â Rheol Sefydlog 23.19, mae'r Pwyllgor Busnes wedi pennu amserlen fel y gall y Pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig ac wedi cytuno y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 12 Mawrth 2010.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes
Hydref 2009